# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

**Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant a gyhoeddwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth, ar 23 Tachwedd 2009**

**At Janice Gregory:**

**Hyrwyddo Celfyddydau Cymru ar Lwyfan y Byd**

Yn ystod y cyfarfod llawn ar 11 Tachwedd, addewais roi gwybodaeth ichi ynglŷn â gweithredu Argymhellion 1, 8 a 10 yr adroddiad uchod.

Byddwch yn cofio imi dderbyn Argymhelliad 1 yn llawn: Argymhelliad 8 yn rhannol yn unig; ac Argymhelliad 10 yn llawn. Mae'r wybodaeth yr wyf yn ei rhoi yn adlewyrchu hyn.

**Argymhelliad 1**

Rydych wedi gofyn imi am yr amserlen arfaethedig ar gyfer adolygu fframwaith rhyngwladol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rwyf wedi cyfeirio'r cais hwn at swyddogion Prif Weinidog Cymru, gan fod y gwaith hwn yn perthyn i gylch gwaith ei Swyddfa ef. Bwriad y tîm Materion Ewropeaidd ac Allanol yw cyflwyno cyngor i'r Prif Weinidog newydd ddechrau'r flwyddyn nesaf.

**Argymhelliad 8**

Gofynnoch am amserlenni ar gyfer datblygu Tŷ Cyfieithwyr yng Nghymru. Cynhwysodd Cyngor Celfyddydau Cymru yr argymhelliad hwn yn adran Llenyddiaeth ei strategaeth ar gyfer y Ffurfiau ar Gelfyddyd; ac fel y dywedais wrthych yn fy ymateb i adroddiad y Pwyllgor, mae'r cam cyntaf wedi'i gymryd trwy sefydlu Cyfnewidfa Lên Cymru, mewn partneriaeth â Thŷ Newydd ac Academi. O ran datblygu Tŷ'r Cyfieithwyr ymhellach, rwy'n deall y bydd cynllun busnes, sydd wedi'i seilio ar bartneriaeth rhwng Cyfnewidfa Lên Cymru a Thŷ Newydd, yn cael ei gyflwyno i'r adolygiad o'r buddsoddiad presennol sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Yn yr adolygiad hwn, mae'r Cyngor yn edrych yn fanwl ar ei bortffolio presennol o sefydliadau sy'n cael cyllid refeniw er mwyn prif-ffrydio'r portffolio hwn erbyn 2011-12. Enghraifft o'r prosiectau sydd eisoes yn cael eu gweithredu yw gweithdy Tŷ'r Cyfieithwyr a gynhelir o 30 Tachwedd tan 4 Rhagfyr lle bydd tri chyfieithydd o India yn trafod y gwaith o gyfieithu rhai detholiadau o ffuglen Gymraeg i Fengaleg, Tamileg a Malaialam.

**Argymhelliad 10**

Gofynnoch am amserlen ar gyfer y gwaith sydd i'w wneud gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i fynd ati i farchnata eu gwasanaethau er mwyn ennyn diddordeb ymarferwyr celfyddydau sy'n gweithredu ar lawr gwlad. Mae swyddogion Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cynnal trafodaethau rhagarweiniol ynglŷn â gwella eu presenoldeb ar y we. Mae'r Cyngor Celfyddydau yn datblygu cynllun cyfathrebu newydd rhwng mis Rhagfyr 2009 a mis Ionawr 2010, i'w gymeradwyo ym mis Ionawr 2010, ac wedi hynny bydd y gwaith o ddatblygu'r wefan newydd yn dechrau. Ar yr un pryd, bydd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn datblygu ei gynllun cyfathrebu ei hun, drwy drafod â swyddogion y Cyngor Celfyddydau a Llywodraeth y Cynulliad. Yn ogystal, fel rhan o'r cytundeb partneriaeth rhwng y Cyngor Prydeinig a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru, caiff ei gynllun cyfathrebu ei adnewyddu er mwyn sicrhau bod adnoddau a rhwydweithiau mor effeithiol â phosib.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth ichi. Byddaf, wrth gwrs, yn ysgrifennu atoch maes o law i roi gwybod ichi am hynt y gwaith sy'n cael ei wneud i weithredu'r holl argymhellion y cytunwyd arnynt yn llawn neu'n rhannol.